| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | Y Cyngor |
| **DYDDIAD** | 15 Gorffennaf 2010 |
| **TEITL** | Ad-drefnu Ysgolion Dalgylch Y Berwyn |
| **PWRPAS** | Amlinellu cynigion i ad-drefnu ysgolion Y Berwyn, gosod y rhesymeg a gofyn am gymeradwyaeth y Cyngor i'r bwriad o symud i gyfnod statudol lle'n berthnasol |
| **ARGYMHELLIAD** | Bod y Cyngor yn cadarnhau'r cynigion ac yn argymell cyfnodau o ymgynghori statudol ar y cynigion perthnasol |
| **AWDUR** | Iwan T. Jones, Cyfarwyddwr Corfforaethol |
| **ARWEINYDD PORTFFOLIO** | Cyng. Liz Saville Roberts |

**NODER**:
Mae cynnwys yr adroddiad hwn yn dilyn cyfnod o drafod yn nalgylch Y Berwyn. Mae'r cynigion yn adlewyrchu anghenion Cyngor Gwynedd yn unol â strategaeth ad-drefnu ysgolion y Cyngor. Mae canllawiau clir wedi'u cyhoeddi gan Lywodraeth y Cynulliad o ran y broses statudol sydd angen eu dilyn wrth newid statws ysgol. Cadarnheir na fydd y cyfnod o ymgynghori statudol ar y cynigion hyn yn cychwyn nes i'r Cyngor gymeradwyo ymgynghoriad statudol.

## 1. CYFLWYNIAD

1.1 Sefydlwyd Gweithgor Gwella Ad-drefnu Ysgolion Gwynedd ym Mehefin 2008.

1.2 Cynhaliwyd 15 o gyfarfodydd i drafod ystod o dystiolaeth, gan gynnwys cyflwyniadau gan:

- Llywodraeth Cynulliad Cymru
- ESTYN/Swyddfa Archwilio Cymru
- Cymdeithas yr Iaith Gymraeg
- Cynghrair Ysgolion a Chefnogwyr
- Penaethiaid yn cynrychioli ysgolion bach, canolig a mawr yng Ngwynedd
- National Association for Small Schools

1.3 Yn ystod Gwanwyn 2009, cyhoeddodd y Gweithgor Gwella ei strategaeth *Addysg Gynradd o'r Ansawdd Gorau i Blant Gwynedd*.

1.4 Cytunwyd bod angen adolygu addysg led-led y sir fesul dalgylch. Gosodwyd camau clir ar gyfer cynnal y broses.

1.5 Gosodwyd ynddi restr o amcanion a meini prawf y dylid eu cadw mewn cof wrth gynnal yr adolygiadau:

- Maint dosbarthiadau
- Poblogaeth a niferoedd disgyblion
- Amgylchedd dysgu'r plentyn
- Y Gymuned
- Adnoddau Ariannol
- Yr Iaith Gymraeg
- Ffactorau daearyddol
- Amgylchiadau eithriadol
- Cylchlythyr 23/02

1.6 Datblygwyd ystod o feini prawf penodol o amgylch y ffactorau uchod. Wrth ystyried sefyllfaoedd dalgylchoedd unigol yn erbyn y meini prawf adnabuwyd Tywyn fel y dalgylch gyntaf i'w hadolygu, gyda'r Berwyn i ddilyn.

1.7 ***Derbyniwyd y strategaeth yn ddiwrthwynebiad gan y Cyngor ar 2 Ebrill 2009***.

1.8 Yn ystod Hydref 2009, cyhoeddwyd y cynigion dalgylchol cyntaf oedd yn argymell trefniadaeth newydd i ddalgylch Tywyn. Cymeradwywyd y rhain fel sail i ymgynghoriad statudol. Cynhelir y cyfnod ymgynghori statudol yn achos Tywyn yn ystod Haf 2010 a chyflwynir adroddiad pellach i gylch democrataidd y Cyngor yn ystod mis Medi 2010.

1.9 Amlinellir isod gynigion ar gyfer ad-drefnu addysg dalgylch y Berwyn.

## 2. ADOLYGU DALGYLCH Y BERWYN

### *2.1 Dulliau cyfathrebu*

2.1.1 Sefydlwyd nifer o fforymau i geisio barn wrth i'r Deilydd Portffolio Addysg ddatblygu ei chynigion, gan gynnwys:

- Panel Adolygu Dalgylch
- Cyfarfodydd gyda staff, llywodraethwyr a rhieni pob ysgol
- Sesiwn i blant a phobl ifanc ysgolion y dalgylch
- Cyfarfod arbennig o'r Panel Adolygu Dalgylch i drafod materion ieithyddol a chymunedol fel rhan o'r asesiadau o effaith
- Cyfathrebu ehangach
- Panel Ymgynghorol Sirol

2.1.2 Sicrhawyd hefyd bod gwybodaeth ysgrifenedig ar gael i bawb oedd â diddordeb.

### *2.2 Panel Adolygu Dalgylch Y Berwyn*

2.2.1 Sefydlwyd Panel Adolygu Dalgylch Y Berwyn yn ystod Tachwedd 2009. Cynhaliwyd cyfarfod cyntaf y Panel ar 4 Tachwedd 2009. Cynhaliwyd 4 cyfarfod pellach ar 2 Rhagfyr 2009, 4 Chwefror 2010, 23 Mawrth 2010 a 12 Mai 2010.

2.2.2 Gwahoddwyd cynrychiolaeth - sef pennaeth, cadeirydd llywodraethwyr a rhiant lywodraethwr - o bob un o'r chwe ysgol gynradd yn y dalgylch. Estynnwyd gwahoddiad hefyd i bennaeth a chadeirydd llywodraethwyr Ysgol Uwchradd Y Berwyn, y 3 chynghorydd lleol a chynrychiolydd Esgobaeth Llanelwy. Estynnwyd gwahoddiad pellach i 3 o gynghorwyr y siroedd cyfagos, sef Conwy a Dinbych, yn ogystal a'r ysgolion cyfagos yn y siroedd hyn. ***Mynychodd 24 o aelodau sefydlog oedd yn cynrychioli'r dalgylch 5 o gyfarfodydd.***

2.2.3 Derbyniwyd a thrafodwyd ystod o dystiolaeth gan y Panel, gan gynnwys pecyn o ystadegau ar yr ardal a gytunwyd gan y Panel cyfan fel adlewyrchiad cyflawn a theg. Wrth baratoi'r wybodaeth ystadegol, gofynnwyd i gynrychiolwyr ysgolion gyflwyno'u sylwadau, herio cynnwys y papurau a gofyn am unrhyw wybodaeth bellach fel yr oedd ei angen. Ar ddiwedd ail gyfarfod y Panel Adolygu Dalgylch ar 2 Rhagfyr 2009, ***cytunodd aelodau'r Panel Adolygu Dalgylch fod y wybodaeth ystadegol a gyflwynwyd yn adlewyrchiad cyflawn a chywir o sefyllfa'r dalgylch a bod ceisiadau pellach y dalgylch wedi'u hateb yn llawn.***

2.2.4 Cyflwynwyd hefyd wybodaeth ar:

- y cyd-destun ariannol
- gwybodaeth am ddatblygiadau cenedlaethol gan gynnwys arweiniad y Llywodraeth ar drafod cynigion i ad-drefnu ysgolion a rheoliadau newydd ar sefydlu patrymau o gydweithio rhwng ysgolion

2.2.5 Ar gais aelodau'r Panel Adolygu Dalgylch, paratowyd rhestr hir o opsiynau posib ar gyfer ad-drefnu ysgolion y cylch. Mireiniwyd y rhestr hir i 7 prif fodel i'w hystyried ymhellach. Derbyniwyd dadansoddiad o oblygiadau addysgol, rheolaethol ac ariannol pob un cynnig yng nghyfarfod y Panel ar 4 Chwefror 2010, a thrafodwyd manteision ac anfanteision yr opsiynau mewn manylder yng nghyfarfod y Panel Adolygu Dalgylch ar 23 Mawrth 2010. Rhestrir yr opsiynau isod:

- dim newid
- patrwm o gydweithio rhwng ysgolion tref y Bala

- patrwm o gydweithio rhwng ysgolion gwledig y cylch
- un ysgol ardal yn nhref y Bala i gymryd lle ysgolion Beuno Sant a Bro Tegid gyda'r opsiwn o gynnwys Ysgol Uwchradd y Berwyn yn y trefniant
- un ysgol ardal yn nhref y Bala i gynnwys ysgolion Beuno Sant, Bro Tegid a Bro Tryweryn gyda'r opsiwn o gynnwys Ysgol Uwchradd y Berwyn yn y trefniant
- cau ysgol y Parc a throsglwyddo'r disgyblion i Ysgol OM Edwards
- cau holl ysgolion y dalgylch a sefydlu ysgol ardal newydd yn nhref y Bala gyda'r opsiwn o gynnwys Ysgol Uwchradd y Berwyn yn y trefniant

### *2.3 Cyfarfodydd gydag ysgolion unigol*

2.3.1 Cynhaliwyd ymweliad â phob ysgol yn y dalgylch gan y Deilydd Portffolio Addysg a chynrychiolydd y Panel Ymgynghorol Sirol (Cyng. Siân Gwenllïan) ar gychwyn y broses. Pwrpas yr ymweliad oedd cyfarfod penaethiaid ac i weld a dod i ddeall sefyllfaoedd ysgolion unigol.

2.3.2 Cynhaliwyd un cylch o gyfarfodydd gydag ysgolion unigol yn ystod y broses, yn ystod cyfnodau 1-18 Mawrth 2010. Estynnwyd gwahoddiad agored i staff, llywodraethwyr a rhieni i fynychu cyfarfodydd ar wahân. Bu cyfle i drafod materion cyffredinol gan gynnwys y modelau penodol oedd dan sylw.

2.3.3 ***Cynhaliwyd felly 21 o gyfarfodydd unigol ar draws 6 diwrnod llawn gyda chynrychiolwyr ysgolion unigol, yn ogystal ag ymweliad gan y Deilydd Portffolio a chynrychiolydd y Panel Ymgynghorol Sirol***.

### *2.4 Plant a Phobl Ifanc*

2.4.1 Yn ystod cyfarfod cyntaf y Panel Adolygu Dalgylch ar 4 Tachwedd 2009, awgrymwyd y dylid gofyn am farn plant a phobl ifanc wrth i'r broses fynd yn ei blaen. Cytunwyd i hyn gan gynrychiolwyr pob ysgol yn y Panel Adolygu Dalgylch.

2.4.2 Hysbyswyd ysgolion unigol y byddai'r sesiwn ar gyfer plant a phobl ifanc yn digwydd yn Ysgol Uwchradd Y Berwyn ar 11 Mawrth 2010. Gofynnwyd i ysgolion drefnu cynrychiolaeth o aelodau'r Cyngor Ysgol, a chytunwyd y dylid cynnwys 3-4 o blant o bob ysgol.

2.4.3 Gwahoddwyd pennaeth pob ysgol i deithio i'r sesiwn gyda'r plant ac anfonwyd rhaglen o'r gweithgareddau a'r cwestiynau y bwriedid eu gofyn i'r plant a'r bobl ifanc at y penaethiaid. Rhoddwyd cyfle i benaethiaid gwestiynu'r trefniadau ac i gynnig gwelliannau. Ni dderbyniwyd unrhyw sylwadau pellach gan benaethiaid cyn y sesiwn.

2.4.4 Hwyluswyd y sesiwn ar 11 Mawrth 2010 gan swyddogion arbenigol y Cyngor.

2.4.5 Cynhaliwyd ystod o weithgareddau er mwyn canfod barn plant a phobl ifanc ar nifer o bynciau, gan gynnwys:

- maint dosbarthiadau
- ystod oedran o fewn dosbarth
- iaith plant tu allan i'r ystafell dosbarth
- pellteroedd teithio i'r ysgol

2.4.6 Wrth gloi'r sesiwn, gofynnwyd i blant a phobl ifanc awgrymu'r math o gyfleusterau yr hoffent eu gweld mewn ysgol.

2.4.7 Cynhyrchwyd adroddiad llawn ar y sesiwn. Yn gyffredinol, dangosodd y plant deyrngarwch i'w hysgolion a'u hathrawon tra hefyd yn adnabod nifer o adnoddau yr hoffent weld yn eu hysgolion. Cyflwynir yr adroddiad fel Atodiad C i'r adroddiad hwn. Gellir hefyd weld yr adroddiad ar wefan y Cyngor.

### *2.5 Panel Ymgynghorol Sirol*

2.5.1 Wrth dderbyn strategaeth *Addysg Gynradd o'r Ansawdd Gorau i Blant Gwynedd* yn ddiwrthwynebiad, rhoddodd y Cyngor ganiatâd i aelodau'r Gweithgor Gwella barhau fel fforwm i gefnogi'r Deilydd Portffolio Addysg wrth iddi arwain adolygiadau fesul dalgylch. Gwnaethpwyd hynny dan enw *Panel Ymgynghorol Sirol*. ***Estynnwyd gwahoddiad i gynrychiolydd o bob grŵp gwleidyddol ar Gyngor Gwynedd.***

2.5.2 Bu 4 cyfarfod o'r Panel Ymgynghorol Sirol i drafod datblygiadau yn y Berwyn, ar 7 Rhagfyr 2009, 28 Ionawr, 24 Chwefror a 24 Mawrth 2010.

2.5.3 Cynigiwyd nifer o opsiynau ar gyfer ad-drefnu ysgolion y cylch gan y Panel, ochr yn ochr â dadansoddiad o fodelau a gynigiwyd gan y Panel Adolygu Dalgylch.

2.5.4 Cynrychiolwyd pob grŵp gwleidyddol ond un yn y Panel Sirol. Ymddiswyddodd un aelod o'r Panel cyn cyfarfod 1 Medi 2009.

2.5.5 ***Trafodwyd y modelau ar gyfer y dalgylch yn ofalus gan y Panel Ymgynghorol Sirol a mynegodd yr aelodau eu sylwadau.***

### *2.6 Asesiad o Effaith Cymunedol ac Ieithyddol*

2.6.1 Fel rhan o'r broses comisiynwyd Cynghoriaeth Dylan Bryn Roberts i gynnal asesiad o effaith ieithyddol a chymunedol posib yr amryw gynigion ad-drefnu.

2.6.2 Cynhaliwyd cyfarfodydd gydag ysgolion unigol i gasglu gwybodaeth a chanfyddiadau. Paratowyd holiadur i gasglu barn staff, llywodraethwyr, rhieni a'r gymuned ehangach i'r opsiynau. Cylchredwyd copïau electroneg a chaled o'r holiadur.

2.6.3 Mae canlyniadau'r asesiadau wedi bod yn rhan greiddiol o ddatblygu'r cynigion a gyflwynir yn yr adroddiad hwn.

2.6.4 Gellir gweld yr adroddiadau llawn ar wefan y Cyngor.

### *2.7 Cyfathrebu ysgrifenedig*

2.7.1 ***Paratowyd pedair newyddlen i'w cylchredeg i bob ysgol yn dilyn pob cyfarfod ond un o'r Panel Adolygu Dalgylch. Anfonwyd copïau caled at yr ysgolion i'w cylchredeg i bob rhiant, e-bostiwyd y newyddlen at bob ysgol a chyhoeddwyd y newyddlenni ar wefan y Cyngor. Roedd y bedwaredd yn crynhoi'r cynigion a fyddai'n mynd gerbron y Cyngor***.

2.7.2 Cyhoeddwyd holl bapurau'r Panel Adolygu Dalgylch ar wefan y Cyngor.

2.7.3 Rhoddwyd manylion cyswllt swyddogion oedd yn ymwneud â'r gwaith ar y wefan.

### *2.8 Statws y broses*

2.8.1 Noder fod y gweithgareddau yr ymgymerwyd â hwy hyd yn hyn yn rhan o'r broses o gasglu gwybodaeth wrth lunio cynigion cychwynnol.

2.8.2 Cyhoeddwyd Cylchlythyr 021/2009 *Cynigion Trefniadaeth Ysgolion* ar 18 Medi 2009. Mae'r Cylchlythyr newydd yn berthnasol i gynigion a gyhoeddir yn statudol o Ionawr 2010 ymlaen ac felly'n berthnasol i'r cynigion hyn.

2.8.3 ***Cadarnheir felly nad yw'r gweithgareddau yr ymgymerwyd â hwy wrth lunio'r cynigion hyn yn rhan o'r broses statudol o adolygu'r ddarpariaeth yn nalgylch Y Berwyn. Mae'r trafodaethau hyd yn hyn yn ychwanegol i'r hyn a ddisgwylir gan Lywodraeth y Cynulliad***.

## 3. CYNIGION DALGYLCH Y BERWYN

3.1. Ar 12 Mai 2010, cyflwynodd y Deilydd Portffolio Addysg ei chynigion ar gyfer ad-drefnu ysgolion dalgylch Y Berwyn i'r Panel Adolygu'r Dalgylch, sef:

- ***Campws Gydol Oes newydd i dref y Bala*** i agor yn ystod blwyddyn academaidd 2014-15 i gynnwys **ysgolion Beuno Sant, Bro Tegid ac Ysgol Uwchradd Y Berwyn**. Bydd angen i swyddogion wneud gwaith pellach ar natur reolaethol y campws newydd.
- ***Cau Ysgol Y Parc erbyn Medi 2012*** gan gynnig lle i blant y dalgylch yn Ysgol O M Edwards, Llanuwchllyn
- ***Hybu cydweithio rhwng Ysgolion Ffridd y Llyn, Bro Tryweryn ac O M Edwards a'r Campws Gydol Oes newydd***.

3.2. Cynigir yma grynodeb o'r rhesymeg tu ôl i'r cynigion. Cynigir dadansoddiad llawn o'r rhesymeg dros y cynigion yn rhan 4 o'r adroddiad ymlaen, gyda gwybodaeth gefndirol pellach ar gyfer Aelodau yn yr atodiadau canlynol:

- Atodiad A1.1 – Rhestr o ddogfennau cefndir pellach
- Atodiad A1.2 – Cwestiynnau ac Atebion
- Atodiad A2 – Cofnodion Panel Dalgylch 1
- Atodiad A3 – Cofnodion Panel Dalgylch 2
- Atodiad A4 – Cofnodion Panel Dalglych 3
- Atodiad A5 - Cofnodion Panel Dalglych 4
- Atodiad B – Modelau ar gyfer ad-drefnu dalgylch y Berwyn
- Atodiad C – Gwybodaeth ymgynghoriad plant a phobl ifanc
- Atodiad Ch1 – Newyddlen 1
- Atodiad Ch2 – Newyddlen 2
- Atodiad D1 – Modelau o gydweithio
- Atodiad D2 – Swydd-ddisgrifiadau

## 4. MWY O WYBODAETH AM YR YSGOL GYMUNED (CAMPWS) GYDOL OES A RHESYMEG Y CYNIGION AR GYFER DALGYLCH Y BERWYN

4.1 Cyn egluro ymhellach rhesymeg y cynigion ar gyfer dalgylch y Berwyn, nodir mwy o wybodaeth am yr ysgol (campws) gydol oes.

### *4.1.1 Beth olygir wrth ysgol gymuned (neu 'gampws') gydol oes?*

4.1.1.1 Mae tystiolaeth o rai ardaloedd o Brydain fod sefydlu trefniadaeth gydol oes yn fodd i gynnal ffocws cynaliadwy i gymunedau gwledig. Mae'n fodd o warchod darpariaeth wledig yn wyneb costau uchel cynnal ysgolion bach, trwy gydlynu rheolaeth ysgolion.

4.1.1.2 Gall campws addysg gydol oes roi manteision ***cwricwlaidd*** trwy greu ethos a disgwyliadau cyffredin i ddisgyblion, staff a rhieni trwy gynnal hyblygrwydd wrth gynllunio a gweithredu'r cwricwlwm. Mae ymchwil yn dangos bod y cyfnod trosiannol o'r ysgol gynradd i'r ysgol uwchradd yn

heriol i blant ac mae cyrhaeddiad yn gyffredinol yn gwaethygu yn ystod y cyfnod hwn. O greu perthynas agosach rhwng y sector cynradd ac uwchradd, gellid lleihau ansicrwydd y cyfnod i blant.

4.1.1.3 Mae cyfle i gynnig mynediad at ***adnoddau arbenigol***. Ceir hefyd, trwy sefydlu campws addysg gydol oes, gyfle i geisio am gyfalaf cenedlaethol sydd ar gael i gefnogi datblygiadau arloesol. Gall hyn gyfarfod â gofynion diwylliannol ehangach dalgylchoedd. Mae pwyslais y Llywodraeth ar ddatblygu Ysgolion yr 21ain Ganrif yn golygu'r angen i ddarparu adnoddau dysgu sy'n manteisio ar y gorau mewn technolegau cynaliadwyedd, technoleg gwybodaeth a gwasanaethau i'r gymuned. Gall hyn yn ei dro arwain at arbedion cynnal a chadw wrth ddarparu adeiladau cynaliadwy pwrpasol.

4.1.1.4 Ceir cyfle i ***fanteisio ar arbenigeddau staff*** ar draws yr oedrannau dysgu, gan hefyd gynnig cyfle i staff ddysgu wrth eu cyfoedion, a hyn er lles addysg disgyblion.

4.1.1.5 Gellid cefnogi ***lles disgyblion*** trwy leihau'r pryder wrth symud o gyfundrefn gyfarwydd y sector cynradd i'r sector uwchradd. Sefydlir gweithdrefn i gynnal disgyblion sydd yn addas i oedran ac anghenion disgyblion gan sefydlu perthynas hir dymor rhwng rhieni a staff.

4.1.1.6 Mae profiadau ardaloedd eraill yn dangos fod cyfle i ***gefnogi teuluoedd*** trwy ddarparu gwasanaethau integredig i gynnwys gwasanaethau iechyd, gofal plant, hyfforddiant i oedolion, ac ystod o wasanaethau eraill.

4.1.1.7 Gellid datblygu ***polisi iaith cynhwysfawr*** trwy'r sectorau cynradd ac uwchradd gan gynnwys gweithgareddau cymunedol ac addysg i oedolion.

4.1.1.8 O ran ***rheolaeth yr ysgol***, ceir cyfleoedd i uno cyrff llywodraethol a chyllidebau. Gellid gwneud hyn yn ffurfiol neu trwy ffederaleiddio, gan gynnig sgôp i wneud arbedion rheolaethol.

### *4.1.2 Pam cynnwys Ysgol Uwchradd y Berwyn yn y trafodaethau?*

4.1.2.1 Mae strategaeth *Addysg Gynradd o'r Ansawdd Gorau i Blant Gwynedd* yn nodi'r angen i adolygu trefniadaeth ysgolion cynradd y sir fesul dalgylch. Cytunwyd yn lleol fodd bynnag bod angen cadw'r ysgol uwchradd yn rhan o'r trafodaethau.

4.1.2.2 Yn ystod Haf 2009, bu cryn drafodaeth yn nalgylch y Berwyn ar bapur a gylchredwyd gan Gymdeithas yr Iaith oedd yn amlinellu syniadaeth am gymuned ddysgu gydol oes yn y cylch. Cefnogwyd yr egwyddor gan Ysgol Uwchradd Y Berwyn, ac ar gais yr Ysgol Uwchradd,

cytunwyd y dylid rhannu'r papur ymysg aelodau'r Panel Adolygu Dalgylch.

4.1.2.3 Yn dilyn trafodaeth bellach, cytunwyd gan y Panel Adolygu Dalgylch y dylid ymchwilio ymhellach i'r posibiliadau o ddatblygu modelau oedd yn cynnwys yr Ysgol Uwchradd.

4.1.3 ***Beth mae hyn yn olygu yn y Berwyn?***

4.1.3.1 Yr hyn sydd dan sylw yw addasu safle presennol y Ysgol Uwchradd y Berwyn ar gyfer datblygu safle gydol oes i gynnwys darpariaeth feithrin cynradd ac uwchradd ynghyd â darpariaethau cymunedol eraill.

4.1.3.2 Os cytunir, bydd yr Ysgol Gydol Oes yn ysgol 3 i 18 oed (yn ddarostyngedig i adolygiad addysg ôl-16). yn cynnwys dalgylchoedd presennol ysgolion Beuno Sant, Bro Tegid, ac Ysgol Uwchradd Y Berwyn.

4.1.3.3 Bydd un corff llywodraethu a bydd yr ysgol yn cael ei ariannu fel un uned. Bydd yr ysgol hon ar un safle a mwy na thebyg yn cynnwys nifer o sefydliadau fyddai wedi dod ynghyd i un safle pwrpasol.

4.1.3.4 Nodir isod rhai prif argymhellion ar gyfer y model gydol oes. Nodir mai argymhellion ydyw rhain ac y byddai materion rheolaethol yn nwylo'r ysgol a'r llywodraethwyr yn y pendraw.

- Bydd yr Ysgol Gymuned Gydol Oes yn cynnwys darpariaeth feithrin, cynradd, uwchradd a chymunedol a diwylliannol. Yn achos y Berwyn, dylid ystyried a thrafod, fel man cychwyn, ychwanegu darpariaeth llyfrgell a theatr i'r campws. Bydd trafodaethau lleol wrth ystyried hyn ymhellach.
- Bydd angen sefydlu bwrdd lleol dan arweiniad pennaeth y campws gydol oes ac i gynnwys cynrychiolwyr yr holl gyfleusterau a gwasanaethau fydd ar y safle.
- Un corff llywodraethol ar gyfer yr ysgol gydol oes. ac un gyllideb i'r campws.
- Un pennaeth ar gyfer y ysgol cyfan, gyda phenaethiaid sector cynorthwyol i gymryd cyfrifoldeb dros y sectorau cynradd ac uwchradd ac unrhyw gyfleusterau a gwasanaethau eraill ar y safle.
- Yr ail reng o reolaeth gellid sefydlu trefn o gyd gysylltwyr gyda chyfrifoldeb traws sefydliad ar agweddau megis Gofal Bugeiliol, Asesu neu Weithgareddau Cymunedol.

4.1.3.5 Mae'n gynamserol i roi ffigwr o union gost datblygiad fel hwn, ond o ran effeithlonrwydd,
y bwriad arfaethedig fyddai addasu safle presennol y Berwyn ar gyfer y datblygiad. Bydd union gost sefydlu ysgol gydol oes yn llwyr ddibynnol ar natur y datblygiad

4.1.3.6 Mae Llywodraeth y Cynulliad yn disgwyl i'r Cyngor baratoi ceisiadau manwl ar gyfer datblygiadau newydd yn ystod blwyddyn ariannol 2010/11 – bydd adnabod costau llawn a rhaglen gweithredu yn rhan greiddiol o'r gwaith hyn.

4.1.3.7 Mae'r model a gynigir ar gyfer dalgylch Y Berwyn yn argymell rhesymoli'r ddarpariaeth yn y dref - trwy gau dwy ysgol gynradd a'r ysgol uwchradd - datblygu ysgol gydol oes yn y dref i wasanaethu disgyblion y dair ysgol tra'n gwarchod presenoldeb 3 o'r 4 ysgol wledig sydd ar hyn o bryd yn addysgu disgyblion ardal wledig Penllyn. Disgwylir i'r ysgol gydol oes a'r 3 ysgol gynradd gydweithio'n agos i fanteisio ar gyfleusterau newydd y dref ac arbenigeddau'r holl staff.

### *4.2 Maint Dosbarthiadau*

4.2.1 Maint dosbarthiadau'r dalgylch ar gyfartaledd heddiw yw 19, gydag amrediad o 9 i 26.

4.2.2 Mae astudiaeth o ystod o dystiolaeth yn amlinellu'r farn gyffredinol - a gadarnhawyd ym mholisi'r Llywodraeth - fod dosbarthiadau o dros 30 o ddisgyblion yn annerbyniol i blant dan 7 oed ac yn annymunol i blant o 7-11 oed.

4.2.3 Ymhellach, mae ymchwil diweddar yn awgrymu y gall dosbarthiadau fod yn rhy fach. Nododd Peter Blatchford yn ei gyhoeddiad "The Class Size Debate: Is Small Better" (2003) *"…it may also be worth considering that class sizes can be too small"* gan adrodd bod athrawon wedi awgrymu *"…the dynamics of the group could become flat and some children could dominate"*.

4.2.4 Mae'r strategaeth a fabwysiadwyd gan y Cyngor ar 2 Ebrill 2009 yn nodi uchelgais i sicrhau dosbarthiadau rhwng 12-25 yn nifer y disgyblion

4.2.5 O wireddu'r holl argymhellion, bydd maint dosbarthiadau'r dalgylch ar gyfartaledd ychydig yn fwy na 21, gydag amrediad o ysgol i ysgol o 13 i 25. Os bydd nifer y disgyblion yn cynyddu (yn ol rhagolygon yr ysgolion), ni fydd dosbarth yn cynnwys llai na 17 disgybl yn y dalgylch.

### *4.3 Niferoedd disgyblion*

4.3.1 Mae niferoedd disgyblion oed cynradd y dalgylch wedi lleihau dros 35% ers 1975. Yn ôl ffigyrau a gyflwynwyd gan ysgolion unigol ac a wiriwyd ac a gadarnhawyd yn ystod trafodaethau'r Panel Adolygu Dalgylch, disgwylir i'r niferoedd gynyddu rhywfaint (tua 12%) yn ystod y 5 mlynedd nesaf.

4.3.2 Mae safonau addysg yn greiddiol i'r cynigion. Er bod yna ragdybiaeth cyffredinol bod safonau addysg mewn ysgolion bach yn uwch nag mewn ysgolion mwy, nid oes tystiolaeth i gefnogi'r rhagdybiaeth. Yn wir, mae adroddiad ESTYN *Ysgolion Cynradd Bach yng Nghymrum(2003)* yn nodi nad oes gwahaniaeth sylweddol rhwng safonau addysg mewn ysgolion mawr a bach, ond *"…lleia'n y byd yw'r ysgol, yr anoddaf yw'r dasg yn aml i'r athro gydweddu gwaith i holl anghenion dysgu'r disgyblion.* Â'r adroddiad ymlaen i *nodi "…gall fod yn anoddach i athrawon mewn ysgolion bach gydweddu gwaith ag anghenion disgyblion, gan y gall disgyblion ym mhob dosbarth wahaniaethu'n fawr o ran oed a chyfnodau datblygu. Mae hyn yn arbennig o wir yn yr ysgolion lleiaf (gyda hyd at 30 o ddisgyblion), lle mae 28% o waith anfoddhaol o gymharu ag 8% o waith anfoddhaol mewn ysgolion â dros 210 o ddisgyblion'*.

4.3.3 Mae 3 ysgol dau athro o fewn y dalgylch heddiw. Mae dwy ysgol bellach yn ysgolion tri athro gyda'r cyfan yn darparu addysg i lai na 60 o ddisgyblion heddiw. Ceir un ysgol pedwar athro sy'n darparu addysg i dros 100 o blant.

### *4.4 Amgylchedd Dysgu'r Plentyn*

4.4.1 Mae'r strategaeth a gymeradwywyd yn ddiwrthwynebiad gan y Cyngor yn Ebrill 2009 yn nodi bod amgylchiadau addysgu a dysgu yn greiddiol i ddarparu addysg o'r radd flaenaf.

4.4.2 Mae adroddiad ESTYN "Arfarniad o berfformiad ysgolion cyn ac ar ôl symud i mewn i adeiladau newydd neu eiddo a adnewyddwyd yn sylweddol" (2007) yn cadarnhau'r farn uchod. Noda'r adroddiad bod ysgolion oedd wedi symud i adeiladau newydd neu wedi gweld eu hadeiladau'n cael eu hadnewyddu'n sylweddol wedi gweld gwelliant mewn cyrhaeddiad a chyflawniad disgyblion (yn enwedig mewn rhai ysgolion mewn cymunedau sydd â lefel uchel o amddifadedd cymdeithasol ac economaidd), bod arolygiadau Estyn o ysgolion unigol yn dangos bod ansawdd yr addysgu wedi gwella, bod morâl staff wedi codi, bod presenoldeb wedi'i gynnal ac ymddygiad wedi gwella a bod adeiladau newydd yn cynnig mwy o ddewis a darpariaeth well o ran addysg o fewn yr ysgol a gweithgareddau cyn ac ar ôl ysgol.

4.4.3 Mae'r Cynllun Rheoli Asedau yn amcangyfrif bod angen gwario tua £606,350 ar atgyweirio ac addasu'r 6 ysgol gynradd yn y dalgylch. O gau Ysgol y Parc, ac adeiladu campws gydol oes i gymryd lle dwy ysgol

gynradd y dref, byddai'r gost yn lleihau i tua £236,600, sef arbediad o tua £370,000 (neu dros 60% o gostau addasu ac uwchraddio ysgolion cynradd y dalgylch). Mae'r cynnig hefyd yn nodi datblygiad i Ysgol y Berwyn - mae angen gwario symiau sylweddol ar ddatblygu'r ysgol uwchradd. Yn ogystal, adnabyddir fod lleoliad ac addasrwydd llyfrgell y dref ar safle'r ysgol yn annigonol, a bod pryderon sylweddol am ddyfodol hir dymor Neuadd Buddug. Mae'r cynnig yn gyfle cynnig i ddatblygu adnodd yn y dref fydd yn cwrdd â gofynion addysgol, diwylliannol a chymdeithasol y dalgylch i'r dyfodol.

4.4.4 Bydd angen trafodaethau pellach gydag ysgolion y dref i ganfod safleoedd addas. Rhagwelir hefyd diweddaru adeiladau eraill y dalgylch i gyd-fynd ag anghenion addysg yr 21ain Ganrif. Bwriedir cyflwyno cais i raglen Ysgolion 21ain Ganrif Llywodraeth y Cynulliad.

### *4.5 Arweinyddiaeth a staffio*

4.5.1 Mae ysgolion y dalgylch heddiw yn derbyn cyllideb ddigonol i ariannu 15 o athrawon cynradd, 6 ohonynt yn benaethiaid. Petai'r drefniadaeth newydd yn dod i rym heddiw, byddai dros 13 o athrawon cynradd (llawn amser) yn gyflogedig yn y cylch. Mae union natur y cydweithio rhwng ysgolion ardal wledig Penllyn a'r ysgolion yn y dref i'w drafod ymhellach, Mae rheoliadau newydd Llywodraeth y Cynulliad yn amlinellu opsiynau staffio all olygu y bydd angen llai o benaethiaid. Mater i ysgolion unigol fydd hyn.

4.5.2 Mae'r model Gydol Oes yn nhref y Bala yn cynnig cyfle i rannu arbenigeddau a nifer athrawon rhwng y sectorau.

### *4.6 Y Gymuned*

4.6.1 Cyhoeddwyd dadansoddiad o'r defnydd cymunedol o bob ysgol, a chyfraniad ysgolion i'w cymunedau, yn y pecyn ystadegol. Rhestrwyd hefyd adnoddau (e.e. canolfannau cymunedol, swyddfeydd post, canolfannau hamdden).

4.6.2 Mae canllawiau'r Llywodraeth (Cylchlythyr 021/2009 Cynigion Trefniadaeth Ysgolion) ar ad-drefnu ysgolion yn nodi'r disgwyliadau o safbwynt cymunedol. Rhoddwyd ystyriaeth i nifer o'r ffactorau a gynhwysir yn y cylchlythyr newydd wrth gynnal adolygiad y dalgylch.

4.6.3 Wrth baratoi'r cynigion, casglwyd a rhannwyd gwybodaeth ar ffactorau cymunedol ac ieithyddol. Mae Cylchlythyr 021/2009 yn nodi ffactorau sydd angen eu hystyried wrth lunio'r cynigion. Mae gwybodaeth ar y ffactorau a ystyriwyd yn nadansoddiad ystadegol o'r dalgylch ar gael ar wefan y Cyngor.

4.6.4 Comisiynwyd astudiaeth o effaith posib yr amryw opsiynau gan ymgynghorwyr annibynnol fel rhan o'r broses o ddatblygu cynigion. Gellir gweld yr adroddiadau ar wefan y Cyngor.

### *4.7 Adnoddau Ariannol*

4.7.1 Dyrennir cyfanswm o £1,046,247 (heb gynnwys unedau AAA a datganoli integreiddio) i'r 6 ysgol gynradd yn nalgylch Y Berwyn yn 2009/10. Mae hyn gyfystyr â £3,750 fesul disgybl ar gyfartaledd, er bod amrediad rhwng ysgolion o £2,950 i £7,428.

4.7.2 Cyfanswm dyraniad trefniadaeth y dalgylch newydd - ar sail y dyraniad cyfredol ac ar ôl cymryd ystyriaeth o anghenion cludiant ychwanegol a amcangyfrifir fel £15,000 - fyddai £963,666. O ran costau refeniw, byddai sefydlu'r drefniadaeth newydd yn arbed £104,199 llai £15,000 cludiant, sef £89,199 y flwyddyn, sef arbediad o 8% o gyllideb refeniw'r dalgylch. Noder bod posibiliadau o greu arbedion ychwanegol o strwythur rheolaethol y campws gydol oes ond fod union natur y campws gydol oes yn fater i'w ddatblygu dros y misoedd nesaf.

4.7.3 Mae 2 o'r 6 ysgol yn y cylch yn derbyn £39,091 yn ychwanegol i'r dyraniad arferol trwy'r polisi gwarchodaeth lleiafswm staffio sydd yn gwarantu o leiaf pennaeth ac athro ymhob ysgol a phennaeth a chymhorthydd mewn ysgolion sydd â llai na 15 o ddisgyblion . O wireddu'r cynnig, caeir un o'r ddwy ysgol hyn.

4.7.4 Os derbynnir y cynigion, bydd y Cyngor yn parhau i weithio ar gynllun i gadw canran o unrhyw arbedion o fewn y dalgylch gydol y broses ad-drefnu ar draws y sir, a hynny er mwy cwrdd ag amcanion strategaeth y sir. Mae ymgynghoriad ar y cynllun arfaethedig yn mynd yn ei flaen ar hyn o bryd a chyflwynir diweddariad dros Haf 2010.

### *4.8 Yr Iaith Gymraeg*

4.8.1 Cyflwynwyd dadansoddiad o gefndir ieithyddol pob ysgol - ar sail gwybodaeth a gasglwyd wrth baratoi Asesiad Iaith o bob ysgol yn y sir yn ystod gwanwyn 2008 - yn y pecyn ystadegau. Cynigiwyd cyfle i ysgolion herio'r dystiolaeth, a gwnaethpwyd hynny gan rai. Cytunwyd ar y dadansoddiad yn dilyn hynny.

4.8.2 Rhoddwyd ystyriaeth wrth ddatblygu'r cynigion ar gyfer y dalgylch i dynnu ysgolion ieithyddol tebyg at ei gilydd.

4.8.3 Comisiynwyd Asesiad o Effaith Ieithyddol yr amryw fodelau a ystyriwyd yn y dalgylch wrth ddatblygu'r cynnig hwn. Cyflawnir hyn yn unol â gofynion Llywodraeth y Cynulliad yng Nghylchlythyr 021/2009. Cyhoeddir yr adroddiad cyfan ar wefan y Cyngor.

### *4.9 Ffactorau Daearyddol*

4.9.1 Anelwyd at gyfyngu teithio lle bo hynny'n bosib. Mae'r cynnig gerbron yn cyfarfod â gofynion y strategaeth o safbwynt teithio, sef i gyfyngu teithio i ddim mwy na 30 munud un ffordd.

4.9.2 Gan fod ysgolion Ffridd y Llyn a Bro Tryweryn eisoes yn Ysgolion Ardal ers eu sefydlu yn ystod y 1960au/1970au, mae nifer o blant eisoes yn teithio pellter sylweddol i'r ysgol. Rhoddwyd ystyriaeth i hyn wrth ddatblygu'r cynigion.

## 5. CYFIAWNHAD O'R CYNIGION

5.1 Nodir isod bwyntiau sydd yn gyfiawnhad pellach dros y cynigion.

5.2 Mi fydd y trefniant newydd yn sicrhau cyfle cyfartal i holl blant y dalgylch dderbyn addysg mewn grwpiau o faint rhesymol ac yn cynnig cyfleoedd i gydweithio ac i gyd-chwarae gyda chyfoedion yn fwy rheolaidd.

5.3 Rhoddir mwy o sicrwydd staffio yn y dalgylch a bydd cyfle i athrawon rannu arbenigeddau amrywiol a chynnig yr arbenigedd hynny i'r disgyblion. Bydd dosbarthiadau yn cynnwys llai o ystod oedran ac felly'n hwyluso cynllunio ac addysgu gan yr athrawon. Mae'r argymhelliad i ddatblygu Campws Gydol Oes yn gyfle euraid i sicrhau pwerdy addysgol a diwylliannol yng nghylch y Berwyn. Mae'n hanfodol i bob ysgol yn y cylch - yn nhref y Bala a'r ardal wledig o'i chwmpas - gael cyfle i fanteisio ar gyfleusterau'r adeilad newydd ac arbenigedd yr ystod o staff yno.

5.4 Mae'r cynigion yn cynnig y cydbwysedd gorau rhwng darparu addysg effeithiol mewn sefydliadau effeithlon wrth gynnig dewis i rieni. Ni fydd unrhyw blentyn yn gorfod teithio mwy na 30 munud i'r ysgol gynradd ar ôl gweithredu'r cynigion.

5.5 Mae'r cynigion yn cymryd ystyriaeth o anghenion adeiladau ysgolion y cylch ac amcanion yr Awdurdod wrth ddatblygu ysgolion sy'n addas i'r 21ain Ganrif. Mae'r cynllun dalgylch cyfansawdd yn rhagweld adeiladu campws gydol oes newydd gan addasu gweddill ysgolion y cylch i'w gwneud yn addas at bwrpas. Bwriedir cyflwyno cais am arian cyfalaf i'r Llywodraeth yn unol â'r strategaeth Ysgolion 21ain Ganrif.

5.6 Mae datblygu cymuned ddysgu gadarn a sefydlog yn greiddiol i gynnig y cyfleoedd gorau i blant. Trwy sefydlogi'r sefyllfa, gellid rhyddhau penaethiaid, athrawon a staff cefnogol i ganolbwyntio ar ddatblygu cwricwlwm sy'n cynnig y cyfleoedd gorau i blant.

5.7 Mae'r cynigion yn rhagweld datblygu ffocws cymunedol pob ysgol yn y cylch. Mae angen i Ysgolion yr 21ain Ganrif ddarparu gwasanaethau sydd yn tynnu'r gymuned a'r ysgol at ei gilydd, gan hyrwyddo addysg i oedlion, clybiau cyn ac ar ôl ysgol, a gweithgareddau cymunedol eraill. Bwriedir rhoi ystyriaeth i uwchraddio llyfrgell y dref a chynnwys darpariaeth ddiwylliannol yn y campws gydol oes newydd. Rhoddir ystyriaeth ddwys i ddatblygu defnydd adeiladau ysgolion eraill y dalgylch ac i gynnal darpariaeth gymunedol ym mhentref y Parc.

5.8 Byddai creu sefydlogrwydd yn sicrhau dyfodol tymor canol i'r 3 ysgol gynradd wledig yn y cylch ac yn galluogi cynllunio cymunedol i ddigwydd o gwmpas yr ysgolion hynny.

5.9 Rhyddheir arbedion sylweddol o weithredu'r cynigion yn llawn, gan arbed 8% o'r gyllideb refeniw a dros 60% o'r gyllideb cynnal a chadw ynghyd ag anghenion addasu.

5.10 Ystyriwyd opsiynau amgen ar gyfer ad-drefnu ysgolion y dalgylch ond ym marn yr Arweinydd Portffolio mae'r cynigion sydd gerbron yn cynnig y cydbwysedd gorau rhwng cynnal safonau addysg, sicrhau ysgolion sydd yn ariannol hyfyw, lleihau anawsterau staffio, cynnal hygyrchedd at ysgolion, galluogi datblygiad arloesol campws gydol oes yn nhref y Bala ac yn cynnig cyfle i ddatblygu adeiladau ysgolion sydd yn addas at ofynion y 21ain Ganrif yn unol ag anghenion yr ardal benodol hon.

5.11 Cynhaliwyd ystod o gyfarfodydd gydag ysgolion, penaethiaid, llywodraethwyr, staff, rhieni a phlant eisoes.

5.12 Os cymeradwyir y cynigion hyn gan y Cyngor, bydd cyfnod o ymgynghori statudol yn dilyn i'r ysgolion hynny sydd yn wynebu newid statudol a bydd adroddiad pellach ar ganfyddiadau'r broses honno yn dod gerbron y Cyngor cyn gwneud y penderfyniad terfynol.

## 6. CAMAU NESAF

6.1 Cyflwynwyd yr adroddiad hwn am sylwadau'r Pwyllgor Craffu Plant a Phobl Ifanc Gwynedd (24 Mai 2010) a derbyniwyd yr argymhellion.

6.2 Cyflwynwyd yr adroddiad wedyn i Fwrdd y Cyngor ar 15 Mehefin 2010. Nodir y penderfyniad:

a) bod swyddogion yn cyflawni gwaith ymchwil i oblygiadau statws cymunedol Ysgol y Parc, er mwyn cyflwyno'r wybodaeth er ystyriaeth y Cyngor llawn ar 15 Gorffennaf
b) argymell i'r Cyngor llawn gymeradwyo'r cynigion canlynol ar gyfer ymgymryd â phroses ymgynghori statudol yn unol â Deddf Safonau Fframwaith Ysgolion 1998:-
   (i) sefydlu campws gydol oes newydd yn nhref Y Bala i agor yn ystod blwyddyn academaidd 2014-15 i gynnwys ysgolion Beuno Sant, Bro Tegid, ac Ysgol Uwchradd Y Berwyn, a bod swyddogion yn cyflawni gwaith pellach ar natur reolaethol y campws newydd;
   (ii) cau Ysgol y Parc erbyn Medi 2012 gan gynnig lle i blant y dalgylch yn Ysgol O M Edwards, Llanuwchllyn, a bod y Cyngor yn gweithio gydag Arweinwyr Cymunedol a Swyddogion Adfywio Bro i ddiogelu defnydd cymunedol adeilad ysgol Y Parc. Bwriedir symud i gyfnod o ymgynghori statudol ar y cynigion - gyda chaniatâd y Cyngor - yn ystod Hydref 2010.
   (iii) hybu cydweithio rhwng Ysgolion O Edwards, Ffridd y Llyn a Bro Tryweryn ac i ddatblygu ffyrdd o ganiatáu i'r ysgolion fanteisio ar gyfleusterau ac arbenigedd y campws gydol oes. Nid oes i'r cynnig hwn oblygiadau statudol.

6.3 Yn unol a'r cais gan y Bwrdd, mae'r prif adroddiad hwn wedi ei gryfhau i adlewyrchu'r angen i gael mwy o fanylion am yr ysgol (campws) gydol oes. Yn ogystal gofynnodd y Bwrdd i swyddogion wneud gwaith pellach ar statws gymunedol Ysgol y Parc. Cyflwynir mwy o wybodaeth ar hyn yn Atodiad A1.2.

6.4 Os cymeradwyir y bwriad gan y Cyngor, bydd yn ofynnol cynnal cyfnod o ymgynghori statudol ar y cynigion ynglŷn â phob ysgol unigol sy'n wynebu cau neu newid statws, a hynny yn unol â chanllawiau Llywodraeth y Cynulliad fel y'u crisialwyd yng Nghylchlythyr 021/2009 *Cynigion Trefniadaeth Ysgolion*.

6.5 Mae Cylchlythyr 021/2009 Llywodraeth y Cynulliad ar Drefniadaeth Ysgolion yn nodi'n glir y disgwyliadau ar awdurdodau lleol wrth ddatblygu cynigion.

6.6 Bydd y cyfnod o ymgynghori statudol yn cynnwys:

- Trafodaethau cyson gydag ysgolion wrth baratoi dogfen ymgynghorol statudol
- Cyhoeddi'r ddogfen ymgynghorol statudol
- Cyfarfodydd ffurfiol gyda staff, llywodraethwyr a rhieni'r ysgolion i drafod y ddogfen ymgynghorol statudol
- Cyfnod o ddim llai na 4 wythnos ar gyfer derbyn sylwadau ac ymatebion ysgrifenedig i'r ddogfen ymgynghorol statudol

- Ar ddiwedd y cyfnod o ymgynghori statudol, mae disgwyl i'r sawl sy'n ymwneud â'r ymgynghoriad ddarparu adroddiad i sylw'r Cyngor yn crynhoi'r materion a godwyd yn ystod yr ymgynghoriad ynghyd â sylwadau pellach. Rhoddir cyfle wedyn i'r Cyngor benderfynu a ddylid bwrw ymlaen gyda'r broses o gau neu newid statws ysgolion.
- Os bydd penderfyniad i fwrw ymlaen, cyhoeddir rhybuddion statudol fesul ysgol yn nodi'r bwriadau ar gyfer yr ysgol honno yn glir. Cylchredir y rhybudd statudol i'r ysgolion penodol a sefydliadau perthnasol eraill, gosodir copïau ohono mewn mannau cyhoeddus yn yr ardal ac ar wefan y Cyngor. Rhoddir dim llai na 2 fis ar gyfer cyflwyno gwrthwynebiadau ysgrifenedig ffurfiol i'r rhybudd statudol.
- Ar ddiwedd y cyfnod ar gyfer cyflwyno rhybuddion statudol, daw'r mater yn ôl gerbron Bwrdd y Cyngor i gadarnhau'r bwriad. Os bydd y Bwrdd yn penderfynu bwrw ymlaen gyda'r cynnig dan sylw ac nad oes gwrthwynebiadau ffurfiol wedi dod i law, gellir cadarnhau'r penderfyniad. Os oes gwrthwynebiadau ffurfiol wedi'u derbyn, trosglwyddir y mater i'r Gweinidog Addysg yn Llywodraeth Cynulliad Cymru.

6.7 Gofynnir felly i'r Cyngor gymeradwyo symud i'r cyfnod ymgynghori statudol yn unol â'r uchod.

## 7. ARGYMHELLION

7.1 I ymgymeryd â phroses ymgynghori statudol yn unol â gofynion Deddf Safonau Fframwaith Ysgolion 1998 ar y bwriad i gau ysgolion Beuno Sant, Bro Tegid, ac Ysgol Uwchradd Y Berwyn fel bod modd sefydlu Ysgol Gymuned Gydol Oes newydd yn nhref Y Bala i agor yn ystod blwyddyn academaidd 2014-15.

7.2 I ymgymeryd â phroses ymgynghori statudol yn unol â gofynion Deddf Safonau Fframwaith Ysgolion 1998 yn ystod Hydref 2010 ar y bwriad i gau Ysgol y Parc erbyn Medi 2012 gan gynnig lle i blant y dalgylch yn Ysgol O M Edwards, Llanuwchllyn. Bydd y Cyngor yn gweithio gydag Arweinwyr Cymunedol a Swyddogion Adfywio Bro i ddiogelu defnydd cymunedol adeilad ysgol Y Parc.

7.3 I hybu cydweithio rhwng Ysgolion O M Edwards, Ffridd y Llyn a Bro Tryweryn ac i ddatblygu ffyrdd o ganiatau i'r ysgolion fanteisio ar gyfleusterau ac arbenigedd y campws gydol oes. Nid oes i'r cynnig hwn oblygiadau statudol.

A. Barn yr Aelod Lleol

B. Barn Swyddogion Statudol:
1. Prif Weithredwr

"Yn amlwg, mae llawer o waith a thrafod manwl wedi digwyd cyn dod i'r argymhellion sydd gerboron, a rhaid eu hasesu yng ngoleuni'r meini prawf a osodwyd, sydd yn cael eu nodi ym mharagraff 1.5 o'r adroddiad. Deallaf mai penderfyniad y Pwyllgor Craffu Plant a Phobl Ifanc, wedi ystyried y mater yn drylwyr, oedd i dderbyn yr argymhelion yn yr adroddiad. Mae'n ystrydeb dweud bod newid sylfaenol fel hyn yn sicr o fod yn groes i farn rhai ond cyfrifoldeb y Bwrdd a'r Cyngor yw ystyried y cynigion sydd orau yng nhgyd-destun y meini prawf a nodwyd eisoes a chynnig arweiniad clir ar y ffordd ymlaen."

2. Swyddog Monitro

Sylwadau Dwygiedig Swyddog Monitro

Fel y mae'r adroddiad yn pwysleisio, yr hyn a wneir yma yw gofyn am gymeradwyaeth i gynigion y gellir mynd i ymgynghoriad statudol arnynt. Os bydd y Cyngor yn cymeradwyo, yna bydd adroddiad yn ôl yn dilyn y cyfnod ymgynghori statudol, a dim ond wedi hynny y bydd penderfyniad yn digwydd i gyflwyno rhybuddion statudol.

3. Prif Swyddog Cyllid

**"**Mae cynigion y Gweithgor perthnasol sydd gerbron yn rhan 4 o'r adroddiad yn dystiolaeth o waith trylwyr gan aelodau etholedig, penaethiaid, athrawon,llywodraethwyr, swyddogion, ac eraill wrth geisio symud ymlaen yn briodol gydag adolygu trefniadaeth ysgolion cynradd yn nalgylch y Berwyn. Cadarnhaf y by mewnbwn addas gan swyddogion Cyllid i'r adolygiad, a phresenoldeb y Rheolwr Cyllid perthnasol mewn cyfarfodydd o Banel Adolygu Dalgylch y Berwyn, ac mae'r ffigyrau sydd yn yr adroddiad unai yn wir gostau cywir neu yn amcangyfrif teg (lle'n briodol). Nodaf fod y strategaeth heriol yma'n ddibynnol ar ddenu grant cyfalaf gan y Cynulliad fyddai'n ariannu canaran sylweddol o gost y cynllun.

Ni ddylid oedi na chyfaddawdi gyda'r cynigion gerbron, er mwyn sicrhau hyfywdra'r drefn arfaethedig.

Rwy'n cefnogi'r argymhellion gerbron ac yn annog aelodau perthnasol i barhau gydag adolygu trefniadaeth ysgolion yn ddi-oed. Byddai oedi gyda trefniadaeth ysgolion yn golygu toriadau ariannol uwch i'r holl ysgolion a bod y Cyngor, unwaith eto, yn colli allan ar grantiau cyfalaf sylweddol sydd ar gael o'r Cynulliad ar gyfer ysgolion newydd cymwys."

B. Papurau Cefndir

Gwelwch Atodiad A1.1 ar sut i weld a chael copi o'r dogfennau hyn:

Cylchlythyr 021/2009 *Cynigion Trefniadaeth Ysgolion* ar 18 Medi 2009

Dogfen Strategaeth Addysg Gynradd o'r Ansawdd Gorau i Blant Gwynedd – Cyngor Llawn 2 Ebrill 2009

Adroddiad Pwyllgor Craffu Plant a Phobl Ifanc Gwynedd 24 Mai 2010

Papurau a chofnodion trafodaethau dalgylch

Newyddlenni anfonwyd yn ystod trafodaethau yn y dalgylch

Asesiad o Effaith Ieithyddol

Asesiad o Effaith Cymunedol

Ch. Goblygiadau Polisi